

Darnau enghreifftiol o aseiniadau

Sylwer os gwelwch yn dda, bod yr aseiniadau hyn o fewn Turnitin ac fe'u darperir fel esiamplau i chi eu hystyried yn hytrach na bod yn esiamplau o atebion 'perffaith'. **Ni ddylid eu copïo / addasu mewn unrhyw ffordd.** Mae unigolion yn taclo aseiniadau mewn gwahanol ffyrdd ac nid oes un dull cywir.

Mae pob cyfeirnod wedi ei ddileu a'i newid i (Cyfeirnod, dyddiad).

Detholiad allan o gyflwyniad (sylwer ar yr ysgrifennu cryno sy'n amlinellu bwriad yr awdur):

Nod yr aseiniad hwn yw ystyried pwysigrwydd gwybodaeth bwnc ar gyfer addysgu cynradd yng Nghymru. Hysbysir y ddealltwriaeth o'r cysyniadau am wybodaeth bwnc gan lenyddiaeth academiaidd. Yng nghyd-destun hyn, adfyfyrir ar y profiadau o'r lleoliad profiad addysgu proffesiynol cyntaf gan ganolbwyntio ar y profiadau o gynllunio ac addysgu'r tasgau penodedig. Trafodir cryfderau a gwendidau gwybodaeth bwnc personol yn sgil hyn.

Treuliwyd y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol cyntaf mewn ysgol wledig yn y De Orllewin sydd â 223 o blant ar y gofrestr (Cyfeirnod, dyddiad). Cyfeirir at yr ysgol o fewn yr aseiniad fel Ysgol A. Daw 24% o'r disgyblion o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg (Cyfeirnod, dyddiad) ond mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 3.5% o'r disgyblion (Cyfeirnod, dyddiad), sy'n uwch na lefel yr awdurdod lleol ond is na Chymru fel gwlad. Mae 14.6% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydiau cinio am ddim (is na'r lefel genedlaethol a lefel yr Awdurdod Addysg Lleol). O ran anghenion dysgu ychwanegol, mae 13.9% ar gynllun gweithredu ysgol (eto'n is na'r lefel genedlaethol a lefel yr Awdurdod Addysg Lleol) (Cyfeirnod, dyddiad).

Bûm yn rhan o ddosbarth blwyddyn 6 a oedd yn cynnwys chwech ar hugain o ddisgyblion deg i unarddeg mlwydd oed. Roedd pump yn derbyn cymorth ychwanegol mewn dosbarth arbennig ar gyfer iaith a mathemateg ac eraill wedi ymuno yn ddiweddar o'r ffrwd Saesneg.

Detholiadau o adolygiadau llenyddiaeth

Esiampl 1: (sylwer ar y modd mae'r testunau yn cael eu cyfuno, sut mae pwyntiau allweddol yn cael eu hadnabod a'r ffocws clir sydd gan yr awdur ar gyfer paragraffau dilynol)

Darparwyd yr ymchwil mwyaf dylanwadol ar wybodaeth pwnc/arbenigedd gan y seicolegydd addysgiadol Cyfeirnod (dyddiad). Diffiniodd Cyfeirnod (dyddiad) gwybodaeth pwnc/arbenigedd fel casgliad o wybodaeth sy'n cwmpasu gwybodaeth a sgiliau sylfaenol yr athro,

dealltwriaeth eang ar faterion addysgiadol, dealltwriaeth o'r agweddau moesegol a'r cyfrifoldebau cyfunol. Ymhelaethodd ar ehangder y pwnc gan gydnabod saith nodwedd wahanol sy'n cysylltu â gwybodaeth pwnc/arbenigedd yr athro. Nododd Cyfeirnod (dyddiad) fod gwybodaeth athrawon yn cwmpasu nifer o agweddau amrywiol, gan gynnwys gwybodaeth cynnwys; gwybodaeth bedagogaid yn gyffredinol a gwybodaeth am y dysgwyr addysgant a nodweddion personol (Cyfeirnod, dyddiad: tudalen).

Yn ôl Cyfeirnod et al (dyddiad) mae gwybodaeth pwnc ac arbenigedd athrawon yn agwedd hanfodol o bwysig ym mhob agwedd o addysgu. Awgrymwyd yn gryf bod athrawon myfyriol sy'n medru addysgu gwybodaeth briodol, cysyniadau amrywiol a sgiliau ac agweddau yn dylanwadu'n gadarnhaol ar eu disgyblion ac yn cael gwell effaith ar eu datblygiad (Cyfeirnod, dyddiad). Cefnogwyd y cysyniad hwn yn gryf gan ymchwilwyr addysgiadol megis Cyfeirnod (dyddiad), Cyfeirnod (dyddiad), a Cyfeirnod (dyddiad). Fodd bynnag, mae safbwyntiau o ran pwysigrwydd gwybodaeth pwnc yn gymysg. Dengys Cyfeirnod (dyddiad), mai dim ond un agwedd fach sydd yn arwain at addysgu effeithiol yw gwybodaeth pwnc ac felly nid yw yn agwedd blaenoriaethol. Ond, fel y dywedodd Cyfeirnod (dyddiad), mae 'gwybodaeth pwnc/arbenigedd' yn derm eang sydd yn cwmpasu nifer fawr o elfennau ac felly nid gwybodaeth cynnwys yn unig sydd yn bwysig ond lluo o gydrannau sy'n cyfrannu tuag at ddysgu ac addysgu da. Wrth ystyried 'pwysigrwydd' gwybodaeth pwnc, rhaid cydnabod ei fod yn beth sydd yn anodd mesur oherwydd mae'r llenyddiaeth yn cyfleu nad oes ddealltwriaeth gyffredin o beth yn union yw 'gwybodaeth pwnc' ac fe allai hyn esbonio'r consensws cymysg.

Esiampyl 2: (sylwer ar y testunau'n cael eu cyfosod wrth nodi pwyntiau allweddol)

Eglurwyd gan Cyfeirnod (dyddiad), fod ymchwil wedi dangos nad oes cyd-berthynas rhwng tueddfryd deallusol yr athro a llwyddiant disgyblion. Yn hytrach, mae'n esbonio fod gwahaniaeth sylweddol yn natblygiad disgyblion a addysgwyd gan athrawon sydd â gallu llafar da o gymharu â'r rhai sydd heb. Ar y llaw arall, esboniwyd gan Cyfeirnod (dyddiad) fod athrawon sydd â gwybodaeth pwnc da yn gallu gwneud y mwyaf o'u gwybodaeth wrth drefnu a defnyddio cynnwys y wybodaeth yn fwy effeithiol a'i gwneud yn haws i'r disgyblion ei ddeall. Yn ogystal â'r gallu i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt yn fwy effeithiol esboniwyd gan Cyfeirnod (dyddiad), fod diffyg gwybodaeth mewn agwedd benodol o'r pwnc yn gallu golygu fod yr athro yn osgoi ei addysgu. Darganfuwyd gan Cyfeirnod (dyddiad) fod athrawon Saesneg yn osgoi addysgu'r elfennau gramadegol nad oeddent yn

siwr ohonynt. Yn ogystal â hyn, gall diffyg gwybodaeth yn y pwnc feddwl fod gor-ddibyniaeth ar lyfrau testun. Mae Cyfeirnod (dyddiad) yn egluro, gan nad oes llawer o amser gydag athrawon felly mae defnyddio llyfrau testun yn ffordd gyfleus o gasglu gwybodaeth am destun sy'n newydd iddynt. Yn anffodus, heb wybodaeth ddigonol am gynnwys a chysyniadau am y pwnc, nid oes modd i'r athrawon feirniadu dilysrwydd a chywirdeb y llyfr.

Detholiadau o'r adran 'Dadansoddiad a Gwerthusiad o Wybodaeth Pwnc'

Esiampl 1: (sylwer ar yr esiampl benodol sydd hefyd yn cael ei gysylltu ag ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cwricwlaid sy'n sail i'r adfyfyrio)

Yn ystod y PAP, sylweddolias bod fy ngwybodaeth pwnc yn brin o fewn un maes penodol, sef Oes Fictoria. Dyma oedd thema'r dosbarth am y tymor ac roedd bron pob gwers, yn enwedig o fewn y pynciau dyniaethol wedi selio ar y thema. Cafodd y wers y dewisiwyd adfyfyrio arni (gweler atodiad__) ei hanelu at ddatblygu sgiliau'r disgyblion o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg fel a awgrymir gan Donaldson (2015) gyda chysylltiad i'r Celfyddydau Mynegiannol, ac roedd disgwyl i'r disgyblion i gynllunio, creu a gwnïo sampler ar thema Fictorianaid.

Gydag ychydig iawn o wybodaeth Sylfaen cyn dechrau'r ymarfer, ac er waethaf gwaith ymchwilio ar y cyfnod, gostyngodd fy hyder wrth imi deimlo bod gan y disgyblion fwy o wybodaeth pwnc na mi. Roedd hwn yn arwydd cryf bod cael gwybodaeth sylfaenol gref am y cynnwys cyn addysgu pwnc yn bwysig (Cyfeirnod, dyddiad) a byddai cael gwybodaeth ddigonol o'r cynnwys a'r cwricwlwm wedi gwella fy addysgu petawn i wedi gwella fy ngwybodaeth sylfaenol (Cyfeirnod, dyddiad).

Aeth yr awdur ymlaen i nodi sut gellid bod wedi datrys hyn

Esiampl 2: (sylwer ar y defnydd o esiamplau penodol sy'n rhoi sail i'r drafodaeth ar wybodaeth pwnc)

Mae Mathemateg yn bwnc haniaethol felly mae'n ddefnyddiol defnyddio cynrychiolaethau go-iawn neu ddarluniadol; roedd y dosbarth blwyddyn un yr oeddwn yn gweithio ynddo yn defnyddio offer sail-deg/base ten i gynorthwyo gyda'u dealltwriaeth o werth lle (gweler Atodiad 3 ar gyfer y cynllun gwers). Cymerais fy nealltwriaeth i yn ganiataol ac o ganlyniad cefais drafferth i esbonio gwerth lle mewn modd oedd yn ddealladwy i'r disgyblion. Er bod gennyf ddealltwriaeth bynciol gadarn o werth lle, gwnes fethu â sylweddoli y gallai fod yn gysyniad anodd i'r plant ei ddeall oherwydd eu hoedran. Yn yr un modd, mewn gwers Addysg Grefyddol ar Diwali, gofynais i'r disgyblion feddwl am bethau tebyg a gwahanol rhwng Diwali a gwyl yr oeddent hwy'n eu ddatlu (gweler Atodiad 5); roedd hwn hefyd yn gysyniad oedd yn anodd iawn i'r plant ei ddeall. Yn anffodus, o fewn y wers cefais drafferth

i addasu a meddwl sut gallwn wneud y syniad yn ddealladwy i'r plant, ond palodd y plant ymlaen chwarae teg.

Aeth yr awdur ymlaen i nodi sut gellid bod wedi datrys hyn

Esiampl 3: (sylwer ar yr esiampl benodol, gyda chysylltiad i waith darllen a damcaniaeth ddysgu

Caiff y drafodaeth hon ei hadlewyrchu yn adran Cynllun Wrth Gefn y Pedwarawd Gwybodaeth. Pan ofynodd un disgybl am werth pH yr hylif gwastraff oedd wedi dod yn sgil yr arbrawf ymarferol, roedd yn adeiladu ar waith a ddysgodd mewn gwrs flaenorol. Dyma gwestiwn gwyb, un nad oeddwn i wedi ei ystyried, ond nid oedd o reidrwydd yn berthnasol i'r hyn oedd yn cael ei addysgu yn y wers hon.

Roeddwn mewn cyfyng-gyngor: mae Cyfeirnod (dyddiad) yn dadlau tra bod angen i'r athro wneud sylw priodol o'r cwestiwn ychwanegol, ac o bosib ei ddefnyddio fel sail i ymchwiliad gwyddonol dilynol, ni ddylai'r athro golli gafael ar amcanion y wers. Mae'n bosib y byddai Cyfeirnod (dyddiad) yn anghytuno, fel y disgrifia Cyfeirnod am (ddamcaniaeth ddysgu Cyfeirnod) mae'r addysgwr yn datblygu dealltwriaeth y plentyn wrth adeiladu ar ac ymestyn beth maent eisioes yn ei wybod. Er fy mod yn sylweddoli bod hwn yn gyfle i ... teimlais ar yr achlysur hwn bod angen cyd-bwyso hyn gyda bwriad y wers dan sylw.

Yn ychwanegol, roedd cwestiwn y disgybl y tu hwnt i'm gwybodaeth pwnc i a gallai hyn fod wedi peri problem pe na bawn yn ymateb mewn modd digynnwrf. Mae Cyfeirnod (dyddiad) yn nodi y gall bylchau yng ngwybodaeth yr athro sy'n cael eu hamlygu gan ddisgyblion arwain at bryder, ac yn ei dro arwain at yr athro i ddiystyru y cwestiwn. Yn ôl Cyfeirnod (dyddiad) gall hyn effeithio ar hyder a hunan-barch disgyblion, ac arwain at ddiffyg addysg effeithiol.

Aeth yr awdur ymlaen i nodi sut wnaeth ddelio gyda hyn.